



Cwestiynau Ymgynghori

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: Keith Davies

Sefydliad (os yn berthnasol): Cyfoeth Naturiol Cymru

e-bost / rhif ffôn: Keith.Davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk /

01248 387285

Eich cyfeiriad: Cyfoeth Naturiol Cymru

Maes-y-ffynnon

Bangor

LL57 2DW

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cefnogi'r newid arfaethedig i Orchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006?

Ydw

Fodd bynnag, os yw awdurdodau lleol yn mynd i allu dewis yr ardal ar gyfer cydweithio ac yna paratoi cynlluniau trafndiaeth ar y cyd ar gyfer yr ardal honno, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Canllaw i Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol – Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2015 yn hybu trefniadau cydweithio i adlewyrchu'r rheiny sydd i gael eu sefydlu ar gyfer agweddau eraill ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, yn fwyaf nodedig cynlluniau datblygu lleol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol a gynigir ym Mil Cynllunio (Cymru) drafft.

Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y Canllaw i Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol – Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2015 (Atodiad 1)

Oes

Os oes, rhowch fanylion:

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y sylwadau canlynol i'w cyflwyno ar y Canllawiau drafft. Cânt eu cynnig i helpu i sicrhau integreiddio rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol gyda'r broses cynllunio trafndiaeth ac i integreiddio'r broses cynllunio trafndiaeth gyda mecanweithiau strategol eraill o ran polisi a chyflenwi, a thrwy hynny sicrhau'r canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl.

Paragraff 1.21

Byddai'n ddefnyddiol egluro'r rhyngberthynas rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a gynigir ym Mil Cynllunio (Cymru) drafft ynghyd â'r berthynas rhwng cynlluniau trafndiaeth ar y cyd a'r Cynlluniau Datblygu Strategol a gynigir ym Mil Cynllunio (Cymru) drafft. Er mwyn sicrhau yr ystyrir materion amgylcheddol ar gam cynnar fel rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau cymdeithasol ac economaidd ehangach, a



thrw y hynny gwella gallu ein hadnoddau naturiol i wynebu heriau yn y dyfodol, mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at rôl y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Dull Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal a nodir yn yr ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy'. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn nodi gofyniad i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar gam dylunio prosiectau, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r ddogfen Ganllawiau gyfeirio at Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Paragraff 1.2.6

Er mwyn helpu i sicrhau buddion lluosog a chanlyniadau gwell i les amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Dull Rheoli Adnoddau Naturiol ar sail Ardal.

Paragraff 2.1.4

Byddai'n ddefnyddiol egluro'r rhyngberthynas rhwng y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol arfaethedig.

Paragraff 2.2.1

Mae'r cynigion ar gyfer Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Bydd hwn yn helpu i ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

Paragraff 2.4.1/Tabl 3.1

Byddai'n ddefnyddiol cynnwys canllawiau mewn perthynas â'r angen i sicrhau bod Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn llywio'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol a diwygio'r llinell amser a nodir yn Nhabl 3.1 yn unol â hynny.

Paragraff 2.6.3/Atodiad 3 Monitro a Gwerthuso

Dylai'r cynllun monitro a gwerthuso gynnwys effaith a buddion mewn perthynas â'r amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol.

Dylai'r sail dystiolaeth a'r setiau data gynnwys yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith penderfynu mewn perthynas â chynlluniau trafndiaeth cenedlaethol a lleol yn cael ei integreiddio gyda gwaith penderfynu rhagweithiol, hirdymor a chyfannol ar gyfer ein hamgylchedd naturiol.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n gallu cynorthwyo â'r gwaith o nodi a darparu'r sail dystiolaeth a setiau data.

Mae'n debyg y bydd yr ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y we neu mewn adroddiad. Os ydych yn dymuno i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: